


amgueddfa lechi cymru
national slate museum

# camau cymraeg

amgueddfa cymru
national museum wales

Noddir gan
Lywodraeth
Cynulliad Cymru
Sponsored by
Welsh Assembly
Government

# camau cymraeg

Pecyn adnoddau rhad ac am ddim i diwtoriaid Cymraeg i oedolion yw Camau Cymraeg. Fe'i cynlluniwyd i alluogi tiwtoriaid i ddefnyddio Amgueddfa Lechi Cymru yn Llanberis fel adnodd i helpu dysgwyr i wella eu sgiliau iaith a chyfathrebu.



Cynlluniwyd y cynnwys ar sail pedair lefel dysgu CBAC: Mynediad, Sylfaen, Canolradd ac Uwch. Mae'n cynnig canllawiau i diwtoriaid ar ddefnyddio ffotograffau a hen bethau i ddysgu iaith. Mae pob uned yn nodi amcanion y gwahanol dasgau, patrymau iaith, geirfa, tasgau neu ymarferion a holiaduron. Maen nhw'n cynnwys cyfeiriadau at sgyrsiau gan staff yr Amgueddfa, y ffilmiau sydd ar y safle, hanesion llafar a hanes lleol.

Ann Jones ac Elwyn Hughes o Adran Ddysgu Gydol Oes Coleg Prifysgol Cymru Bangor sydd wedi cynhyrchu'r cynnwys. Roedd eu cyfraniad yn amhrisiadwy wrth sicrhau bod y pecyn yn diwallu anghenion tiwtoriaid ac yn adlewyrchu'r strategaethau cyfoes i ddysgu ieithoedd.

Datblygwyd y project mewn ymateb i Iaith Pawb, strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru i greu Cymru ddwyieithog. Mae'r project yn enghraifft o ymrwymiad Amgueddfa Cymru i brif-ffrydio'r Gymraeg. Fe'i hariannwyd ar y cyd gan yr Amgueddfa a Llywodraeth Cynulliad Cymru (Adran Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau), sydd wedi ymrwymo i greu dulliau arloesol o ddysgu Cymraeg i oedolion.

Mae'r pecyn ar gael ar ein gwefan yn www.amgueddfacymru.ac.uk/addysg. Cynlluniwyd y cynnwys yn arbennig i'w lawrlwytho am ddim ac mae'r taflenni'n hawdd eu llungopïo.

Mae system bwcio ar gyfer dod â grwpiau o oedolion sy'n dysgu Cymraeg i'r Amgueddfa. Ffoniwch y Swyddog Addysg ar (01286) 873706 i drefnu ymweliad.

Mae'r lluniau archif i gyd yn © Gwasanaeth Archifau Gwynedd.

# cynnwys


## Unedau Rhagarweiniol

| | |
|---|---|
| **Mynediad 1** | Termau |
| **Mynediad 2** | Dod i nabod y safle |
| **Mynediad 3** | Chwilio'r safle |
| **Mynediad 4** | Y Caban a'r chwarelwyr |
| **Mynediad 5** | Tai Fron Haul |
| **Mynediad 6** | Sesiwn golchi yn y tai |
| **Sylfaen 1** | Sut oedd Chwarel Dinorwig yn gweithio |
| **Sylfaen 2** | Y Daith i'r gwaith |
| **Sylfaen 3** | Hollti a naddu |
| **Sylfaen 4** | Yr Olwyn Ddŵr a'r Neuadd Bŵer |
| **Sylfaen 5** | Pobl Fron Haul |
| **Sylfaen 6** | Sesiwn fwyd yn y tai |
| **Canolradd 1** | Bargen |
| **Canolradd 2** | Cludiant |
| **Canolradd 3** | Hollti a naddu |
| **Canolradd 4** | Tai Fron Haul |
| **Canolradd 5** | Tŷ'r Prif Beiriannydd a Rhif 2 Fron Haul |
| **Canolradd 6** | Sesiwn ddillad yn y tai |
| **Uwch 1** | Llinell amser |
| **Uwch 2** | Hanes Dafydd |
| **Uwch 3** | Hanes Celia |
| **Uwch 4** | Hanes Cadi |
| **Uwch 5** | Hanes Hugh R. Jones |
| **Uwch 6** | Hollti a naddu |

## Lluniau i drafod








# unedau rhagarweiniol

**Nod: Dechrau cyflwyno'r safle ac ennyn diddordeb cyn ymweld â'r Amgueddfa**

**Cynnwys**

1. Gwaith trafod ar gyfer pob lefel.
2. Sgwrs ranedig i ddechrau cyflwyno'r Amgueddfa.
3. Darn darllen ar gyfer Canolradd ac Uwch.

# uned rhagarweiniol 1

## gwaith trafod ar gyfer pob lefel

**Mynediad**

Dach chi wedi bod yno?

Oes gynnoch chi lechi ar do eich tŷ?

Dach chi'n licio llechi?

---

**Sylfaen**

Dach chi wedi bod yno?

Oes gynnoch chi lechi ar do eich tŷ?

Dach chi'n licio llechi?

Sgynnoch chi rywbeth wedi ei wneud o lechi yn y tŷ neu yn yr ardd?

---

**Canolradd**

Dach chi wedi bod yno?

Oes gynnoch chi lechi ar do eich tŷ?

Dach chi'n licio llechi?

Sgynnoch chi rywbeth wedi ei wneud o lechi yn y tŷ neu yn yr ardd?

Be sy'n ffasiynol iawn mewn tai a gerddi ar hyn o bryd?

---

**Uwch**

Dach chi wedi bod yno?

Oes gynnoch chi lechi ar do eich tŷ?

Dach chi'n licio llechi?

Sgynnoch chi rywbeth wedi ei wneud o lechi yn y tŷ neu yn yr ardd?

Be sy'n ffasiynol iawn mewn tai a gerddi ar hyn o bryd?

Dach chi'n hoff o edrych ar raglenni/darllen cylchgronau am dai a garddio?

Be dach chi'n licio?

Fasech chi'n licio rhywbeth arbennig yn eich tŷ/gardd?

# uned rhagarweiniol 2a

## sgwrs ranedig i ddechrau cyflwyno'r amgueddfa

A: Yr wythnos nesa mae'r dosbarth yn mynd i'r Gilfach Ddu.

B: ______________________________

A: I'r Gilfach Ddu yn Llanberis

B: ______________________________

A: Y Gilfach Ddu oedd gweithdai Chwarel Dinorwig.

B: ______________________________

A: Roedden nhw'n trwsio ac yn cynnal a chadw holl offer y chwarel.

B: ______________________________

A: Mae Amgueddfa Lechi Cymru yno erbyn hyn.

B: ______________________________

A: Mi wnaeth y chwarel gau yn sydyn pan oedd y chwarelwyr ar eu gwyliau yn haf 1969. Yn fuan wedyn mi wnaeth yr Amgueddfa Genedlaethol gymryd cyfrifoldeb am y safle er mwyn gwneud Amgueddfa i'r Diwydiant Llechi yng Nghymru.

**Geirfa**

| | | |
|---|---|---|
| gweithdai | - | *workshops* |
| cynnal-a-chadw | - | *to maintain* |
| offer | - | *tools, equipment* |
| chwarelwyr | - | *quarrymen* |
| safle | - | *site* |
| amgueddfa | - | *museum* |
| diwydiant | - | *industry* |
| cymryd cyfrifoldeb | - | *to take responsibility* |

# uned rhagarweiniol 2b

## sgwrs ranedig i ddechrau cyflwyno'r amgueddfa

A: ______________________________

B: I le?

A: ______________________________

B: Beth sy yno?

A: ______________________________

B: Beth oedden nhw'n wneud yno?

A: ______________________________

B: Beth sy'n digwydd yno heddiw?

A: ______________________________

B: Ers pryd?

A: ______________________________

**Geirfa**

| | | |
|---|---|---|
| gweithdai | - | *workshops* |
| cynnal a chadw | - | *to maintain* |
| offer | - | *tools, equipment* |
| chwarelwyr | - | *quarrymen* |
| safle | - | *site* |
| amgueddfa | - | *museum* |
| diwydiant | - | *industry* |

# uned rhagarweiniol 3

## darn darllen ar gyfer canolradd ac uwch

**Parc Padarn**

Heddiw mae Parc Padarn yn lle braf iawn i fynd am dro. Mae ’na lwybrau trwy’r hen goedwig ar y llethrau, trên bach wrth ochr y llyn, teithiau cwch ar y llyn, siopau crefftau a gweithgareddau awyr agored.

Yma hefyd mae Amgueddfa Lechi Cymru.

Safle i fwynhau hamddena ydy Parc Padarn heddiw.

Ond tan 1969 roedd y safle yma yn un o’r safleoedd diwydiannol pwysicaf a phrysuraf yng ngogledd Cymru.

Mae hanes y Diwydiant Llechi i’w weld yn yr Amgueddfa. Mae’r Amgueddfa yn y Gilfach Ddu – gweithdai gafodd eu hadeiladu yn 1870 yn arbennig i gynnal-a-chadw holl offer y Chwarel.

Mae’n bosib cerdded Llwybrau’r Llechi i weld olion y Chwarel ar y mynydd a’r Barics, lle roedd y dynion oedd yn byw yn bell o’r chwarel yn aros yn ystod yr wythnos.

Mewn safle hardd uwchben y llyn mae hen ysbyty’r Chwarel – mae’n agored i’r cyhoedd.

Wrth ochr Chwarel Vivian mae Incléin V2. Mi gafodd ei drwsio’n ddiweddar ac mae’n bosib ei weld yn gweithio yn ystod yr haf. Roedd y llechi’n dod i lawr o’r mynydd ar yr Incléin at y llyn yn barod i’w cario i’r porthladd.

Mae ’na ddigon i’w wneud yma heddiw – digon i fynd yn ôl lawer gwaith a gweld rhywbeth newydd bob tro.

# uned rhagarweiniol 3

## darn darllen ar gyfer canolradd ac uwch

**Beth ydy'r gair am:**

*slopes* -

*activities* -

*industrial* -

*to maintain* -

*equipment* -

*remains* -

*the public* -

*to repair* -

*port* -

**Beth ydy arwyddocâd** (*significance*)

hamddenol

prysur

gweithdai

Barics

ysbyty

Incléin

mynd yn ôl eto